NMC Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Cynllun corfforaethol 2019–2020






# Cyflwyniad

## Amdanom ni

Ni yw'r rheolydd annibynnol ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio.  Ar 31 Mawrth 2019, roedd ein cofrestr yn cynnwys enwau bron i 700,000 o nyrsys a bydwragedd sy'n gallu gweithio yn y DU, a chymdeithion nyrsio sy'n gallu gweithio yn Lloegr.

Mae gofal gwell a mwy diogel wrth wraidd yr hyn a wnawn, gan gynorthwyo'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ein cofrestr i ddarparu gofal o'r safon uchaf.

Rydym yn sicrhau bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i ofalu am bobl mewn ffordd ddiogel, gydag uniondeb, arbenigedd, parch a thosturi, o'r eiliad y byddant yn cychwyn yn eu swydd gyntaf.

Ni fydd dysgu yn stopio ar y diwrnod pan fydd nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn cymhwyso. Er mwyn hyrwyddo diogelwch ac ymddiriedaeth y cyhoedd, mae gofyn i weithwyr proffesiynol ddangos trwy gydol eu gyrfa eu bod wedi ymrwymo i ddysgu a datblygu er mwyn diweddaru eu sgiliau a gwella fel ymarferwyr.

Rydym yn dymuno annog gweithredu agored a dysgu ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, er mwyn gwella gofal a chadw'r cyhoedd yn ddiogel. Ar yr achlysuron pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le a bydd pobl mewn perygl, gallwn gamu i mewn er mwyn ymchwilio a gweithredu, gan roi llais i'r bobl sy'n cael eu heffeithio, gan gynnwys cleifion a theuluoedd, wrth i ni wneud hynny.

## Ein rôl

### Mae ein cyfrifoldebau rheoliadol fel a ganlyn:

- cadw cofrestr o'r nyrsys a'r bydwragedd sy'n bodloni'r gofynion er mwyn cofrestru yn y DU a chymdeithion nyrsio sy'n bodloni'r gofynion er mwyn cofrestru yn Lloegr
- pennu safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad, fel y gall nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel yn gyson trwy gydol eu gyrfaoedd
- gweithredu er mwyn delio ag unigolion y peryglir eu huniondeb neu eu gallu i ddarparu gofal diogel, fel y gall y cyhoedd gael hyder yn ansawdd a safonau'r gofal a ddarparir gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio.



# Ein strategaeth

## Trosolwg

Mae'n *Strategaeth 2015–2020: Rheoleiddio dynamig ar gyfer byd sy'n newi* yn ein herio i sicrhau bod ein hymagwedd tuag at reoleiddio yn arloesol, yn flaengar ac yn gallu addasu i newidiadau ym maes gofal iechyd a'r galwadau ar fydwragedd, nyrsys a chymdeithion nyrsio. Mae'n nodi pedair blaenoriaeth strategol er mwyn helpu i dywys ein gwaith wrth ganlyn ein huchelgais. Y rhain yw:

1. **Rheoleiddio effeithiol**
2. **Defnyddio gwybodaeth**
3. **Cydweithio a chyfathrebu**
4. **Sefydliad effeithiol**

# Ein cyflawniadau er 2015

Rydym wedi parhau i gryfhau'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio. Mae'r newidiadau a wnaethom yn cynnwys:

- cyflwyno **Cod** safonau proffesiynol arfer ac ymddygiad newydd yn 2015, sy'n gonglfaen gofal nyrsio a bydwreigiaeth da, a diweddaru hwn yn 2018 er mwyn adlewyrchu ein gwaith o reoleiddio cymdeithion nyrsio
- parhau i ddarparu ein **strategaeth addysg**, rhaglen pedair blynedd er mwyn adolygu a diweddaru ein holl safonau nyrsio a bydwreigiaeth, pennu safonau medrusrwydd newydd ar gyfer cymdeithion nyrsio a newid y ffordd yr ydym yn sicrhau ansawdd rhaglenni addysg
- cyflwyno **ailddilysu** yn 2016, sy'n galluogi'r bobl ar ein cofrestr i ddangos eu bod yn parhau i weithio mewn ffordd ddiogel ac effeithiol
- gweithredu yn 2018 er mwyn rhoi sylw i ganfyddiadau Adolygiad o'r Gwersi a Ddysgwyd yr **Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA)** ynghylch y ffordd y deliom â phryderon addasrwydd i wneud gwaith bydwragedd yn Ysbyty Cyffredinol Furness
- cyflwyno ein **Gwasanaeth Cymorth i'r Cyhoedd** yn 2018 er mwyn darparu cymorth wedi'i deilwra i'r cyhoedd ac i deuluoedd sydd wedi mynegi pryderon am rywun ar ein cofrestr
- lansio **cyfeiriad strategol newydd yn 2018 ar gyfer addasrwydd i wneud gwaith**, a oedd yn arwydd o'n hymrwymiad i symud i ffwrdd o ddiwylliant o fwrw bai tuag at ddiwylliant cyfiawn ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- ehangu **CNB Ar-lein** ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio er mwyn iddynt allu rhyngweithio gyda ni yn haws
- agor rhan newydd o'r gofrestr ar gyfer **cymdeithion nyrsio** yn Lloegr ym mis Ionawr 2019
- gwella ein proses i ymgeiswyr o'r tu allan i'r DU i ymuno â'n cofrestr, gan gynnwys gwneud newidiadau i'n gofynion ynghylch sgiliau Saesneg.

# Cyd-destun strategol

## Y darlun ehangach

Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n symud yn gyflym. Felly, mae angen i'n cynllun corfforaethol ymateb i newidiadau yn y byd o'n cwmpas.

- **Meithrin ymddiriedaeth mewn rheoleiddio proffesiynol**
  Wrth gyflawni ein mentrau polisi cyhoeddus, rydym yn gofyn i gymdeithion nyrsio, bydwragedd a nyrsys i ystyried eu hymddygiad a'u heffaith ar y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Hoffem i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ehangach ymgysylltu a rhyngweithio gyda ni mewn ffyrdd newydd a bod ein cyflogeion yn meddwl mewn ffordd wahanol am bwy ydym a sut yr ydym yn dangos ein gwerthoedd a'n hymddygiad.
- **Pwysau economaidd, pwysau ar y gweithlu a phwysau o ran perfformiad yn cynyddu ar y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol**
  Er enghraifft, mae'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Sefydliad Iechyd yn nodi bod 41,000 o swyddi nyrsio a bydwreigiaeth gwag o fewn GIG yn Lloegr – mwy nag 1 o bob 10. Mae sialensiau recriwtio a chadw yn parhau ar draws y gweinyddiaethau datganoledig hefyd. Mae angen i ni sicrhau bod ein safonau a'n prosesau yn galluogi ac yn annog nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio diogel ac effeithiol i ymuno â'r gweithlu ac i aros ynddo.
- **Newidiadau o ran yr angen am ofal, a sut a ble y caiff gofal ei ddarparu**
  Mae angen i ni sicrhau bod addysg nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn addasu er mwyn ymateb i'r sialensiau hyn. Er enghraifft, effaith newid technolegol; y boblogaeth sy'n heneiddio, sy'n arwain at niferoedd uwch o bobl yn byw gyda dementia a chyflyrau eraill, a mwy o alw am ofal cymdeithasol; ac effaith y cynnydd mewn anghydraddoldebau.
- **Effaith Brexit**
  Mae angen i ni gynllunio ar gyfer amrediad o sefyllfaoedd sy'n effeithio ar fydwragedd, nyrsys a chymdeithion nyrsio o'r UE sy'n dymuno ymuno â'n cofrestr a nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio o'r DU sy'n dymuno gweithio yn UE efallai.

## Y darlun ehangach

- **Diwygio rheoliadol posibl**
  Rydym ni, ynghyd â rheolyddion eraill, wedi bod yn dadlau ers cryn amser bod angen moderneiddio ein deddfwriaeth. Ymatebom i ymgynghoriad y Llywodraeth ym mis Ionawr 2018 ac edrychwn ymlaen i barhau i helpu i siapio a dylanwadu ar ddyfodol rheoleiddio iechyd.

- **Cydweithio strategol**
  Byddwn yn parhau i ddatblygu'r potensial i rannu gweithgareddau a swyddogaethau gyda rheolyddion eraill pan fo hynny'n gwneud synnwyr a phan fo hynny'n gallu hyrwyddo gofal gwell a mwy diogel.

## Datblygu ein strategaeth nesaf

Wrth i ni agosáu at ddiwedd ein strategaeth 2015-2020, mae angen i ni gynllunio ein blaenoriaethau ar gyfer 2020 a thu hwnt. Yn ystod 2019-2020, byddwn yn adolygu'r hyn a ddysgom ac yn datblygu ein cyflawniadau a'n cynnydd presennol. Rydym yn cynnal darn mawr o waith ymchwil er mwyn deall gwerthoedd a chredoau y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a'n partneriaid ynghylch rheoleiddio proffesiynol a rôl CNB yn well. Byddwn yn ystyried newidiadau posibl yn yr amgylchedd ehangach ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a'n partneriaid, yn ogystal â'n cydweithwyr o fewn CNB, fel y gallwn gyd-lunio ein blaenoriaethau a'n strategaeth ar gyfer 2020-2025.

## Gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig

Rydym yn rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Mae natur ddatganoledig iechyd a gofal yn golygu bod pob llywodraeth yn pennu ei hamcanion a'i blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae'n perthnasoedd cryf gyda phob gweinyddiaeth ddatganoledig yn sicrhau ein bod yn gallu deall amcanion polisi yn y bedair gwlad a'r goblygiadau ar gyfer rheoleiddio.

# Ein blaenoriaethau a’n hymrwymiadau ar gyfer 2019–2020

## Ein pedwar maes darparu

Mae’r cynllun hwn yn disgrifio ein blaenoriaethau corfforaethol ar gyfer blwyddyn olaf ein strategaeth ar gyfer 2015-2020. Mae’n datblygu’r cynnydd a sicrhaom a’r pethau a ddysgom yn flaenorol, fel y gallwn gyflawni ein blaenoriaethau strategol.

Mae natur drawsbynciol ein blaenoriaethau strategol yn golygu bod mentrau allweddol yn aml yn cyfrannu at fwy nag un o’r blaenoriaethau strategol. Er mis Medi 2018, rydym wedi bod yn cynllunio ein gwaith ac yn adrodd dan dri maes darparu:

**1**

### Newid ein dull gweithredu

mentrau strategol newydd a fydd yn newid y ffordd yr ydym yn rheoleiddio yn sylweddol, gan gynnwys ein dull gweithredu newydd tuag at addasrwydd i wneud gwaith.

**2**

### Mentrau rheoliadol craidd

gwaith sy’n sicrhau bod ein gweithredu rheoliadol yn effeithiol ac yn effeithlon er mwyn galluogi gofal gwell a mwy diogel. Mae darparu ein rhaglen addysg a rheoleiddio cymdeithion nyrsio yn enghreifftiau.

**3**

### Gwella ein gallu a’n seilwaith

sicrhau ein bod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon nawr ac yn y dyfodol.

**4**

NMC 2020 25

### Datblygu ein strategaeth newydd ar gyfer 2020–2025

ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid a datblygu ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2020-2025.

# 1 Newid ein dull gweithredu

## Darparu dull newydd tuag at addasrwydd i wneud gwaith

Rydym yn canolbwyntio ar leihau'r risgiau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, cleifion a'r cyhoedd yn y dyfodol trwy annog gweithredu agored a dysgu.

Mae'r newidiadau yr ydym yn eu gwneud yn ymwneud â choleddu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ystod y broses addasrwydd i wneud gwaith. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn trin gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd gyda thosturi a'n bod yn parchu ac yn gwrando yn gywir ar bryderon y cyhoedd ynghylch nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio, ac yn eu datrys.

Byddwn yn cydweithio'n agosach gyda chyflogwyr fel y gellir datrys cymaint o faterion ag y bo modd yn gyflym ac yn effeithiol yn lleol. Byddwn yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r cyd-destun y mae digwyddiadau yn codi ynddo, gan ein bod yn gwybod y bydd nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn wynebu materion cymhleth a phwysau bob dydd.

Pan fynegir pryderon i ni, byddwn yn rhoi anogaeth gref i fydwragedd, cymdeithion nyrsio a nyrsys i fod yn agored ac yn onest gyda ni am yr hyn a ddigwyddodd, ac i siarad â ni mor gynnar ag y bo modd am yr hyn y maent wedi'i wneud i unioni'r sefyllfa. Os bydd angen mwy o weithredu, byddwn yn ceisio cytuno gyda bydwragedd, nyrsys a chymdeithion nyrsio pa gamau y bydd angen iddynt eu cymryd cyn y byddant yn addas i wneud gwaith mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Mewn nifer o achosion, efallai na fydd angen cynnal gwrandawiad cyhoeddus llawn. Bydd hyn yn lleihau'r faich ar bawb dan sylw, yn enwedig y cyhoedd, cleifion a theuluoedd y byddai'n rhaid iddynt ail-fyw profiadau gofidus fel arall. Byddwn yn parhau i roi rhesymau llawn dros y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud fel bod tryloywder am y camau a gymrwyd er mwyn hyrwyddo gofal mwy diogel, a pham.

## Ein hymrwymiadau ar gyfer 2019–2020

**Perchennog atebol:** Cyfarwyddwr, Addasrwydd i wneud Gwaith

1. Erbyn diwedd chwarter 1, byddwn yn gwerthuso canlyniadau'r cynlluniau peilot a gychwynnom yn 2018-2019, gan wneud newidiadau gweithredol er mwyn cyflawni'r cyfeiriad strategol newydd.
2. Er mwyn gwella lefel y cymorth yr ydym yn ei ddarparu ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n mynd trwy ein proses addasrwydd i wneud gwaith, byddwn:

- yn darparu gwell gwybodaeth a gwaith cyfeirio at ffynonellau cymorth erbyn diwedd chwarter 2
- yn lansio llinell gymorth sy'n cynnig cymorth emosiynol erbyn diwedd chwarter 3
- yn cyflwyno gwasanaeth cyngor cyfreithiol pro-bono ar gyfer cofrestreion heb gynrychiolaeth, mewn partneriaeth ag ysgol y gyfraith, erbyn diwedd chwarter 2

### Ymgorffori'r argymhellion o'r Gwersi a Ddysgwyd

Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol Adolygiad Gwersi a Ddysgwyd ynghylch y ffordd y deliom â phryderon ynghylch addasrwydd bydwragedd i wneud eu gwaith yn Ysbyty Cyffredinol Furness. Rydym yn gwybod y bu ein hymagwedd at yr achosion hyn – a'r ffordd y cyfathrebom â'r teuluoedd yn arbennig – yn annerbyniol, ac mae'n ddrwg gennym am yr effaith a gafodd hyn ar bawb dan sylw.

Ar 6 Mehefin 2018, bu ein Cyngor yn ystyried ac yn trafod Adolygiad Gwersi a Ddysgwyd yn llawn, ac ymddiheurom yn ddiamod i'r teuluoedd ar yr adeg hon. Gofynnodd y Cyngor i'r Swyddogion Gweithredol baratoi rhaglen eang o waith er mwyn rhoi sylw i'r argymhellion, a chytunwyd ar hyn yn ystod cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2018.

Rydym wedi sicrhau cynnydd sylweddol yn erbyn y rhaglen waith hon, gan gynnwys cyflwyno ein Gwasanaeth Cymorth i'r Cyhoedd newydd. Bydd y gwaith yn parhau ym mhob Cyfarwyddiaeth yn ystod 2019-20 er mwyn ymgorffori'r newidiadau hyn, er enghraifft ein gwaith parhaus ar y strategaeth Addasrwydd i wneud Gwaith a'n gwaith i ymgorffori'r Gwasanaeth Cymorth i'r Cyhoedd.

## Ein hymrwymiadau ar gyfer 2019–2020

**Perchennog atebol:** Cyfarwyddwr, Cofrestriadau ac Ailddilysu

Byddwn yn defnyddio dull gweithredu tryloyw sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan drawsnewid y ffordd yr ydym yn delio â'r holl ymholiadau a chwynion erbyn chwarter 4.

### Adolygu'r broses gofrestru i'r rhai o wledydd tramor

Rydym yn gwerthfawrogi'r rôl hanfodol y mae nyrsys a bydwragedd o wledydd tramor yn ei gyflawni yng ngweithlu iechyd y DU ac rydym yn gwybod hefyd bod dewis dod i weithio yn y DU yn gofyn am fuddsoddiad personol ac ariannol sylweddol. Mae'n hadolygiad tramor yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod y broses i ymgeiswyr tramor mor effeithlon a hawdd i'w deall ag y bo modd, gan barhau i sicrhau y cynhelir ein safonau uchel.

## Ein hymrwymiad ar gyfer 2019–2020

**Perchennog atebol:** Cyfarwyddwr, Cofrestriadau ac Ailddilysu

Byddwn yn sicrhau bod y broses ymgeisio lawn yn un awtomataidd erbyn mis Awst 2019, byddwn yn parhau i wella ein cymorth a'n harweiniad i ymgeiswyr, a byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella'r Prawf Cymhwysedd.



# 2 Mentrau rheoliadol craidd

## 2. Mentrau rheoliadol craidd

### Cyflawni ein rhaglen addysg

Rydym yn dymuno sicrhau bod ein safonau addysg yn addas i'r diben a bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt er mwyn darparu gofal o ansawdd uchel nawr ac yn y dyfodol.

Yn 2017, ymgysylltom yn helaeth â gweithwyr proffesiynol, y cyhoedd a'n partneriaid ar draws y DU er mwyn ein helpu i ddatblygu ein safonau nyrsio a'n fframwaith addysg newydd. Cyhoeddwyd y rhain ym mis Mawrth 2018 a dechreuodd y myfyrwyr cyntaf hyfforddi yn erbyn y safonau newydd yn 2019. Yn 2018, cyhoeddom safonau newydd ar gyfer rhaglenni rhagnodi hefyd, gan fabwysiadu Fframwaith Cymhwysedd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ar gyfer yr holl Ragnodwyr fel ein safonau medrusrwydd ar gyfer nyrsys a bydwragedd sy'n rhagnodwyr.

Ym mis Chwefror 2019, dechreuom ymgynghori am safonau bydwreigiaeth newydd a oedd yn nodi'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen ar fydwragedd y dyfodol. Datblygwyd y safonau drafft mewn partneriaeth â bydwragedd, menywod a theuluoedd, grwpiau eiriolaeth, addysgwyr, a'n partneriaid ar draws y sector iechyd a gofal.

Ar hyn o bryd, ceir tua 900 o raglenni addysg cymeradwy mewn dros 80 o sefydliadau addysg cymeradwy (SACau) sy'n darparu addysg a hyfforddiant ym maes nyrsio, bydwreigiaeth a gwaith cymdeithion nyrsio. Mae ein proses sicrhau ansawdd yn sicrhau bod y rhaglenni addysg yn bodloni ein safonau er mwyn paratoi gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol i ymuno â'n cofrestr. Yn 2019, byddwn yn dechrau sicrhau ansawdd yr holl raglenni a'r sefydliadau addysg yn erbyn y safonau newydd.

**Ein hymrwymiadau ar gyfer 2019–2020**
**Perchennog atebol:** Cyfarwyddwr, Addysg a Safonau

1. Datblygu ein safonau

- **Nyrs y dyfodol**
  bydd y gwaith o weithredu ein fframwaith addysg newydd a'n safonau medrusrwydd newydd ar gyfer nyrsys cofrestredig yn cychwyn o fis Hydref 2019
- **Bydwraig y dyfodol**
  byddwn yn cwblhau'r ymgynghoriad am ein safonau drafft ar gyfer bydwragedd cofrestredig, yn cymeradwyo'r safonau terfynol yn ystod yr hydref 2019 ac yn eu lansio ym mis Ionawr 2020
- **Dychwelyd i weithio**
  byddwn yn cyhoeddi safonau dychwelyd i weithio newydd ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ym mis Mai 2019
- **Safonau ôl-gofrestru**
  erbyn diwedd chwarter 1, byddwn yn cytuno ar amserlen a rhaglen waith er mwyn cwblhau ein hadolygiad o safonau ôl-gofrestru.

2. Byddwn yn sicrhau ansawdd yr holl raglenni a'r sefydliadau addysg yn erbyn y safonau newydd, gan ddefnyddio ein model sicrhau ansawdd newydd.

### Ymgorffori rheoleiddio cymdeithion nyrsio yn ein swyddogaethau craidd

Agorom ran newydd o'r gofrestr ar gyfer cymdeithion nyrsio yn Lloegr ym mis Ionawr 2019. Maent yn pontio'r bwlch rhwng cynorthwywyr iechyd a gofal a nyrsys cofrestredig. Mae rôl y cydymaith nyrsio yn creu cyfle ac yn cynnig pwynt mynediad newydd i'r proffesiynau iechyd a gofal, ynghyd â llwybr cynnydd i nyrsio ar lefel gradd. Mae'n rôl annibynnol ynddo'i hun.

Caiff cymdeithion nyrsio eu hyfforddi i weithio gyda phobl o bobl oed ac mewn amrywiaeth o leoliadau ym maes iechyd a gofal. Maent yn cynorthwyo (nid yn cymryd lle) nyrsys cofrestredig, fel y gall nyrsys ganolbwyntio ar ddyletswyddau clinigol mwy cymhleth.

Maent yn gweithio yn unol â'n Cod, sy'n nodi safonau ymddygiad cyffredin ar gyfer y rhai ar ein cofrestr. Mae'r Cod yn cyfleu neges glir, cyson a chadarnhaol i'r cyhoedd am yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y rhai sy'n darparu gofal nyrsio neu fydwreigiaeth.

**Ein hymrwymiadau ar gyfer 2019–2020**
**Perchennog atebol:** Cyfarwyddwr, Addysg a Safonau

Byddwn yn cymeradwyo rhaglenni cyn-gofrestru ar gyfer cymdeithion nyrsio, gan ddefnyddio ein fframwaith addysg newydd[1].

Byddwn yn monitro ac yn adolygu ein prosesau rheoliadol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n dda ar gyfer cymdeithion nyrsio ar sail barhaus trwy gydol y flwyddyn, gan geisio sicrhau dirnadaeth o'r gwerthusiad a gynhelir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd ynghylch cyflwyno'r rôl.

[1] Caiff y gwaith cymeradwyo ei arwain gan y galw, felly nid oes gan yr ymrwymiad hwn derfyn amser penodol



# 3 Gwella ein gallu a’n seilwaith

## Trawsnewid ein systemau corfforaethol

Rydym yn defnyddio amrediad o dechnolegau er mwyn ein helpu i gyflawni ein dyletswyddau rheoliadol. Un enghraifft yw ein cofrestr ar-lein o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Mae angen i ni sicrhau bod y technolegau hyn yn gost-effeithiol ac yn cynorthwyo rheoleiddio modern.

Rydym yn darparu rhaglen tair blynedd er mwyn disodli systemau TG sydd wedi dyddio ac er mwyn darparu datrysiadau sy’n gwella’r defnydd a wneir o wybodaeth, sy’n ein gwneud yn fwy effeithlon, ac sy’n cynnig profiad gwell i’n cydweithwyr, i weithwyr proffesiynol, i’r cyhoedd ac i’n partneriaid.

**Ein hymrwymiadau ar gyfer 2019–2020**
**Perchennog atebol:** Cyfarwyddwr, Technoleg ac Arloesi Busnesn

1. Byddwn yn trawsnewid ein systemau corfforaethol er mwyn sicrhau gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, gan sicrhau eu bod yn addas i’r diben nawr ac yn y dyfodol. Erbyn diwedd y flwyddyn, byddwn yn:

- disodli ein systemau ar gyfer cofrestru, ailddilysu, rheoli achosion a sicrhau ansawdd darparwyr addysg, gan fanteisio ar offerynnau Microsoft newydd
- lansio datrysiad newydd er mwyn disodli ein system rheoli dogfennau

2. Byddwn yn gwella ein seilwaith gwybodaeth busnes, ein systemau a’n hofferynnau sy’n cynorthwyo’r Uned Gwybodaeth Rheoliadol wrth nodi a rhoi sylw i’r meysydd posibl o risg rheoliadol.

## Creu gweithle digidol

Law yn llaw â'n rhaglen i foderneiddio systemau craidd, dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn rhoi offerynnau i'n cyflogeion er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, gan gynorthwyo gweithio ystwyth a hyblyg ar yr un pryd. Bydd hyn yn cynnwys datrysiadau ffôn a fideo-gynadledda newydd, gwrandawiadau rhith, offerynnau cyfathrebu mewnol gwell megis Workplace by Facebook, mewnrwyd newydd ac offerynnau arolygu ar-lein newydd, a fydd yn trawsnewid y ffyrdd yr ydym yn cyfathrebu yn fewnol ac yn allanol.

**Ein hymrwymiad ar gyfer 2019–2020**
**Perchennog atebol:** Cyfarwyddwr, Technoleg ac Arloesi Busnes

1. Cyflawnwyd Cam 1 y gwaith o uwchraddio'r system deleffoni yn barod. Cyflawnir Cam 2, sy'n cynnwys uwchraddio ymarferoldeb y ganolfan alwadau, erbyn diwedd chwarter 4.
2. Rhoddir gliniaduron i'r rhan fwyaf o gyflogeion a gosodir WiFi corfforaethol newydd ar draws holl safleoedd CNB erbyn diwedd chwarter 2
3. Byddwn yn gweithredu platfform cydweithio a chyfathrebu newydd i gyd-fynd â'n mewnrwyd erbyn diwedd chwarter 1.



## Cyflawni ein Strategaeth Pobl

Mae pobl yn hanfodol i'n llwyddiant, ac rydym yn parhau i ymrwymo i fuddsoddi yn ein cydweithwyr.

2019-2020 yw trydedd blwyddyn ein Strategaeth Pobl pedair blynedd, a fydd yn datblygu amgylchedd gwaith blaengar, cynaliadwy ac sy'n ymgysylltu, sy'n cyfrannu at ein datblygiad fel lle gwych i weithio. Ein nod yw denu, datblygu a chadw cyflogeion proffesiynol ac ymgysylltiol hynod o fedrus, er mwyn cyflawni ein huchelgais o sicrhau gofal gwell a mwy diogel.

Byddwn yn dechrau moderneiddio ein fframwaith tâl a gwobrwyo er mwyn sicrhau y gallwn ddenu a chadw cydweithwyr hynod o fedrus.

Byddwn yn gwella gweithgarwch ymgysylltu ein cyflogeion trwy gyfrwng mentrau wedi'u targedu megis llwybrau galwedigaethol a chamu ymlaen mewn gyrfa i gydweithwyr, ymyriadau datblygu dysgu a sefydliadol a pharhau gyda'r rhaglen datblygu arweinyddiaeth trwy gydol 2019-2020. Trwy weithredu'r mentrau hyn, gallwn barhau i ddatblygu'r diwylliant o greu timau sy'n sicrhau perfformiad uchel. Mae'r holl waith hwn yn cefnogi ein hymrwymiad i'n cynllun gweithredu cydraddoldeb a chynhwysiant, ac mae'n cyfrannu at ein gweledigaeth o fod yn gyflogwr delfrydol.

Byddwn yn parhau i ddatblygu a hyrwyddo ein gwerthoedd, gan sefydlu ymddygiad cadarnhaol sy'n cefnogi ein gwerthoedd ac sy'n sicrhau bod CNB yn lle gwych i weithio. Byddwn yn defnyddio adborth a gasglwyd yn barod er mwyn sicrhau y clywir llais y cyflogai mewn partneriaeth â'r gwaith o ymgynghori a datblygu fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad newydd a fydd yn sail i'n strategaeth newydd ar gyfer 2020-2025.

Byddwn yn parhau i wella ein gallu datblygu sefydliadol ac AD mewnol er mwyn sicrhau y gallwn gynorthwyo cydweithwyr i gyflawni'r gwaith gorau y gallant ei gyflawni, gan goleddu ein diwylliant sy'n canolbwyntio ar bobl.

### Ein hymrwymiadau ar gyfer 2019–2020

**Perchennog atebol:** Cyfarwyddwr, Pobl a Datblygiad Sefydliadol

1. Ymgynghorir am system tâl a graddio newydd, ac fe'i gweithredir erbyn diwedd chwarter 2. Caiff gwaith dros y tymor hwy ar gynllun cynllun tâl yn y dyfodol ei gwblhau erbyn diwedd chwarter 4.
2. Cyflwynir cynllun gweithredu cydraddoldeb a chynhwysiant yn ystod chwarter 1.
3. Cytunir ar fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad newydd erbyn diwedd chwarter 4.

## Symud ein timau addasrwydd i wneud gwaith i safle newydd

Yn ystod 2019-2020, byddwn yn symud ein timau addasrwydd i wneud gwaith o 23 Portland Place, 1 Kemble Street, a 61 Aldwych i swyddfeydd modern newydd yn Stratford. Byddwn yn cadw ein safle addasrwydd i wneud gwaith presennol yn 2 Stratford Place a George Street yng Nghaeredin. Byddwn yn parhau i gynnal gwrandawiadau yn Llundain, Caeredin, Caerdydd a Belfast.

**Ein hymrwymiad ar gyfer 2019–2020**
**Perchennog atebol:** Cyfarwyddwr, Adnoddau

Symud ein timau addasrwydd i wneud gwaith o leoliadau yn 23 Portland Place, 1 Kemble Street, a 61 Aldwych i un lleoliad yn Stratford erbyn diwedd chwarter 2, a hynny heb amharu ar y gweithrediadau.



## Darparu gwaith ymgysylltu a chyfathrebu strategol rhagweithiol

Ein nod yw datblygu llais cryfach a blaenllaw ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn rheoleiddio proffesiynol ymhlith y cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol i gyflawni rôl mwy arwyddocaol wrth ddarparu gofal gwell a mwy diogel.

Mae angen i ni ymgysylltu mewn ffordd fwy effeithiol, fel y gallwn wrando yn well ar bobl, a chyfathrebu'n well gyda nhw. Bydd adrodd stori ystyrlon a grymus yn rhan ganolog o hyn, gan helpu i esbonio i gyflogeion CNB a'r cyhoedd, cleifion, y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a'n partneriaid pwy ydym, sut yr ydym yn bwriadu symud o'r man lle'r ydym i'r man lle'r ydym yn dymuno bod, a beth fydd y newidiadau a'r gwelliannau hyn yn ei olygu iddyn nhw.

**Ein hymrwymiadau ar gyfer 2019–2020**
**Perchennog atebol:** Cyfarwyddwr, Materion Allanol

1. Erbyn diwedd chwarter 1, byddwn yn cyd-lunio'r themâu drafft ar gyfer strategaeth gorfforaethol 2020-2025 gyda rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd allweddol
2. Erbyn diwedd chwarter 2, byddwn yn defnyddio'r model gweithredu newydd ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu er mwyn cynorthwyo'r gwaith llwyddiannus o gyflwyno ein mentrau polisi cyhoeddus, a gwella gweithgarwch ymgysylltu gyda gweinyddiaethau datganoledig a seneddol trwy sefydlu a thyfu ein rhwydwaith
3. Erbyn diwedd chwarter 4, byddwn yn lansio'r strategaeth gorfforaethol, gan sicrhau cymorth eang gan drydydd partïon a lefelau uchel o ran gwybodaeth cyflogeion.



# 4 Datblygu ein strategaeth newydd ar gyfer 2020–2025

NMC 2020 25

## Strategaeth newydd ar gyfer 2020–2025

Caiff ein strategaeth newydd ei chyd-lunio yn fewnol rhwng y Cyngor a'n cyflogeion newydd, a chaiff ei chyd-lunio yn allanol rhyngom ni a'r gweithwyr proffesiynol, y cyhoedd a'n partneriaid.

Comisiynom ddarn mawr o waith ymchwil yn 2018 er mwyn deall gwerthoedd a chredoau y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a'n partneriaid yn well. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn 2019 a bydd yn cyfrannu at ddatblygiad y strategaeth, ynghyd â gweithgarwch sganio'r gorwel ac amrediad eang o fewnbynnau eraill.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad sy'n dysgu. Byddwn yn defnyddio ein gwybodaeth am yr hyn sydd wedi gweithio'n dda yn y gorffennol a meysydd lle y mae angen i ni sicrhau gwelliant. Byddwn yn datblygu'r cynnydd a wnaethpwyd dan strategaeth 2015-2020, gan gynnwys y dull gweithredu newydd tuag at addasrwydd i wneud gwaith a moderneiddio technoleg, a byddwn yn parhau i fod yn uchelgeisiol, i goleddu'r dulliau gweithredu diweddaraf o ran y ffordd yr ydym yn rheoleiddio, ac i ymdrechu i sicrhau 'gofal gwell, a mwy diogel' fyth.

**Ein hymrwymiad ar gyfer 2019–2020**
**Perchennog atebol:** Prif Swyddog Gweithredol a Chofrestrydd

Gan gydweithio â'n rhanddeiliaid, darparu strategaeth newydd sy'n ysbrydoli ein cyflogeion, sy'n ymgysylltu ein rhanddeiliaid, ac sy'n datblygu ein cynnydd wrth hyrwyddo gofal gwell a mwy diogel. Cymeradwyir y strategaeth gan y Cyngor ym mis Mawrth 2020.



Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

23 Portland Place, London W1B 1PZ
T +44 20 7637 7181 F +44 20 7436 2924
**www.nmc.org.uk**

**@nmcnews**

The nursing and midwifery regulator for England, Wales, Scotland and Northern Ireland. Better and safer care is at the heart of what we do.

Registered charity in England and Wales (1091434) and in Scotland (SC038362).